Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020

Amser: 08.51 – 11.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5985

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AC Alun Davies AC Mike Hedges AC Rhianon Passmore AC Mark Reckless AC David Melding AC (yn lle Nick Ramsay AC)
Tystion:	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Matt Wellington, Llywodraeth Cymru David Phillips, Sefydliad Astudiaethau Cyllid Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru Cian Sion, Canolfan Llywodraethiant Cymru Michael Trickey, Prifysgol Caerdydd
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc)

	Leanne Hatcher (Ail Glerc) Georgina Owen (Ail Glerc) Samantha Williams (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn friffio breifat gydag ymgynghorydd arbenigol

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio breifat gan yr ymgynghorydd arbenigol Dr Edward Jones, Darlithydd mewn Economeg, Prifysgol Bangor.

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Roedd David Melding AC yn bresennol fel dirprwy i Nick Ramsay AC.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) - 7 Ionawr 2020

3.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) - 7 Ionawr 2020

3.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Cyfarwyddyd Gweinidogol ar gyfer trefniadau pensiwn y GIG 2019/20 - 8 Ionawr 2020.

4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid; Guto Ifan, Cydymaith Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd; Cian Sion, Cynorthwyydd Ymchwil, Canolfan

Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd; a Michael Trickey, Uwch Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd, Rhaglen Dadansoddi Cyllidol Cymru, Prifysgol Caerdydd.

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn dystiolaeth 7

5.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; a Matthew Wellington, Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb, Llywodraeth Cymru.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfan o'r cyfarfod nesaf ar 23 Ionawr 2020

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Trafod y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad - 16 Rhagfyr 2019

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft a chytunodd i ymateb iddo.

9 Trafod Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

9.1 Nododd y Pwyllgor yr offeryn statudol.